

Digimap for Schools

O Siop i Dŷ

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Siop yn dŷ

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Gwaith maes, defnydd manwerthu/tir trefol	Unrhyw stryd fawr

Gwybodaeth	Mapio defnydd tir/ychwanegu polygonau/ychwanegu labeli a lluniau/mesur ardaloedd/creu ac argraffu mapiau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Defnydd tir trefol/manwerthu/adfywio – deall y broses o drefoli.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd gan ddefnyddio mapiau, a defnyddio mapiau i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol. Esbonio sut a pham mae lleoedd yn newid.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 0.07a, 2.10a, 4.10b, 2.14a.

Gweithgaredd

Mae angen i chi gynnwys eich dosbarth wrth archwilio stryd fawr leol i ddarganfod pa fath o siopau sydd yno. Trafodwch pam mae rhai siopau'n wag a beth ellid ei wneud am hyn, gan gynnwys yr opsiwn i droi rhai ohonyn nhw'n dai fforddiadwy.

Mae'r rhan fwyaf o strydoedd mawr yn nodweddion llinol ac mae rhai ohonyn nhw'n eithaf hir. Mae hyn yn rhoi'r opsiwn i chi roi cyfrifoldeb i ddisgyblion unigolyn, neu grwpiau, dros ymchwilio i glystyrau o siopau. Gallwch greu cofnod gweledol o'r stryd fawr trwy ychwanegu lluniau, anodiadau a chodau lliw i'r map. (Gellir gwneud hyn dros gyfnod o amser).

Byddai'r canlyniad terfynol yn ddwy dudalen A3 (neu sawl un) wedi'u hargraffu a'u rhoi at ei gilydd i greu arddangosiad ystafell ddosbarth y mae pawb wedi cyfrannu ato, a gellir ei ddiweddarau dros amser drwy ychwanegu mwy o wybodaeth. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r syniad bod lleoedd yn datblygu dros amser, a'u bod nhw ddim yn statig.

Bydd gwaith maes yn rhoi'r canlyniadau gorau, ond gallwch ddefnyddio set o ddelweddau o du blaen siopau a baratowyd ymlaen llaw, a gall delweddau *Google StreetView* fod ar gael ar gyfer nifer o flynyddoedd.

Ychwanegu lluniau

AWGRYM – os ydych chi'n creu set o luniau eich hun, defnyddiwch allbrint *Digimap for Schools* i nodi rhif ffrâm pob llun ar y map wrth i chi symud ymlaen, er mwyn i chi allu dod o hyd iddo'n hawdd nes ymlaen.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Defnyddio iPad – gellir atodi lluniau'n syth i'r map.

Closiwch i raddfa fwyaf *Digimap for Schools* a dewch o hyd i'r adeilad y byddwch yn tynnu llun ohono.

- Dewiswch yr eicon llun yn yr *Annotation Tools* (offer anodi). Cliciwch ar yr adeilad a dilynwch yr opsiwn 'take photo or video' (tynnu llun neu fideo).
- Cymerwch lun a dewiswch 'use' (defnyddio) ac yna 'upload' (lanlwytho). Bydd y pin ar yr adeilad a bydd y llun yn cael ei atodi gan linell.

Symud lluniau – dewiswch y saethau symud yn *Modify* (addasu) a dewis y llun i'w symud allan o ffordd manylion y map a lluniau eraill. Os yw'r pin yn y safle anghywir, dewiswch y pin, a bydd y pin a'r llun yn symud gyda'i gilydd.

Cod lliwiau ar gyfer siopau yn ôl math

Nid yw *Digimap for Schools*, ar hyn o bryd, yn gallu creu allwedd yn awtomatig, ond mae'r daflen myfyrwyr yn cynnwys rhai awgrymiadau y gallwch eu defnyddio neu eu haddasu.

Agorwch *Digimap for Schools* a chlosiwch i'r raddfa fwyaf yn y lleoliad rydych wedi'i ddewis. Yna, agorwch *Google maps* mewn ffenestr arall a'i newid i *satellite view* (llun lloeren). Closiwch i'r un lleoliad. Yn *Google maps*, llusgwch y symbol 'pegman' melyn ar y bar closio i'r lleoliad i ganol y siopau rydych eisiau eu gweld. Bydd llun lefel stryd yn ymddangos. Gallwch banio a sgrolio i edrych ar siopau unigol yn yr ardal ac anodi'r un siopau ar fap *Digimap for Schools* gyda'r math cywir o liw symbol a'r tabl gweithgaredd sydd wedi'i lenwi ymlaen llaw. I anodi'r eiddo, gosodwch y tryloywder ar 0%, dewiswch y lliw priodol o'r dewis llenwi a'r opsiwn amlinellu, a phwyswch ar y botwm i ddechrau tynnu llun ardal. Dechreuwch wrth gornel yr adeilad, cliciwch unwaith ac yna unwaith eto ym mhob pwynt troi. Cliciwch ddwywaith i gwblhau a chau ardal yr adeilad, a bydd yn cael ei lenwi gan eich lliw dewisol. Gwnewch hyn ar gyfer pob adeilad.



Cadw eich map – pryd bynnag y gwnewch newidiadau iddo.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cyflwyniad dosbarth

Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddwyd Adolygiad Portas. Roedd yr adroddiad, gan yr arbenigwraig manwerthu, Mary Portas, yn archwilio dyfodol ein strydoedd mawr a daeth i'r casgliad na fydd canol trefi, fel yr ydym ni'n gyfarwydd â nhw, yn bodoli, oherwydd bod y ffordd rydym ni'n siopa wedi newid am byth.

Y strydoedd mawr sydd wedi bod yn ganolbwynt trefi a chymunedau ers canrifoedd. Fodd bynnag, mae angen eu cefnogi nhw os ydyn nhw am ffynnu a dod yn 'hanfodol a dichonadwy'. Maen nhw'n wynebu bygythiad digynsail o newidiadau i ffordd o fyw ac argaeledd cyfleoedd siopa eraill sy'n fwy 'cyfleus' i gwsmeriaid. Y prif 'fygythiadau' i ganol trefi yw manwerthu ar-lein, canolfannau siopa y tu allan i drefi (lle mae siopau dan do) a pharciau manwerthu (lle gall parcio fod yn rhad ac am ddim). Gall gostyngiad mewn incwm gwario fod yn chwarae rhan hefyd, gan fod gan bobl lai o 'incwm gwario'.

Un o'r problemau sy'n gysylltiedig â nifer gynyddol o siopau gwag yw'r effaith weledol y maen nhw'n ei chael, sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad cyffredinol o ddirywiad ac esgeulustod, a gwneud yn stryd i edrych yn lle llai pleserus i fod yno.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae rhai canol trefi wedi gwneud ymdrechion i wella, ac mae cyllid ar gael i gynorthwyo nifer o drefi i ddatblygu eu syniadau.

Mae rheoliadau cynllunio yn draddodiadol wedi diogelu'r stryd fawr trwy atal siopau a swyddfeydd rhag cael eu troi'n gartrefi, ond yn 2013, cyhoeddwyd y gallai'r rhain gael eu llacio i ganiatáu i siopau a swyddfeydd gwag gael eu trawsnewid i dai. Gyda phrinder tai a gormod o siopau gwag, mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol. Yn ddelfrydol, dylai'r siopau aros gyda'i gilydd, a dylai unrhyw rai sy'n cael eu trawsnewid i dai fod y rhai pellaf i ffwrdd o'r canol. A fyddai hyn yn gweithio yn eich stryd fawr leol chi?

Mynd gam ymhellach

- 1 Os nad ydych chi wedi gallu cyflawni gwaith maes gyda'r dosbarth, ystyriwch gymysgu rhai o'r lluniau, neu'r lluniau i gyd, yn fwriadol, fel eu bod nhw wedi cael eu hatodi i'r siopau anghywir. Gwnewch ddisgyblion yn gyfrifol am adrannau penodol o siopau a gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio'r offeryn *Modify* (addasu) i'w rhoi nhw yn y lle iawn. Rhowch ddalen o luniau ar wahân iddyn nhw gyda chyfeirnod grid y lleoliad cywir, neu gliwiau eraill.
- 2 Gallech ehangu'r gweithgaredd i archwilio clystyru siopau yn ôl math. Mae rhai siopau, fel siopau esgidiau, yn aml yn cael eu canfod mewn clystyrau penodol ar y stryd fawr. A yw hyn yn digwydd yn eich ardal leol chi?
- 3 Cadwch gofnod o'r newidiadau sy'n digwydd yn eich stryd fawr chi dros nifer o fisoedd, neu flynyddoedd hyd yn oed. Bydd gan eich myfyrwyr fynediad wedyn at archif defnyddiol sy'n dangos y newidiadau yn eich ardal leol dros gyfnod o amser.
- 4 A yw eich tref yn Dref Clôn? Gweler y dolenni gwe i weld arolwg dwy dudalen sy'n cynnwys cyfrifiannell gyflym i ddarganfod yr ateb.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dolenni ar y we

- Gellir gweld Adolygiad Portas 2011 ac unrhyw adroddiadau cynnydd dilynol ar www.gov.uk/search?q=portas&tab=government-results
- Arolwg Tref Clôn – defnyddiwch hwn i weld pa mor debyg yw eich tref chi i bob man arall ym Mhrydain www.reimagineyourhighstreet.org/wp-content/uploads/Clone_Town_Britain_Survey_II.pdf

Map enghreifftiol:



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D12239
f1.0 Mehefin 2014

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mathau o siopau - defnyddiwch amlinelliad du a llenwad 100%

Symbol	Type of use	Symbol	Type of use
	Food (general)		Clothing
	Baker		Shoes
	Butcher		Books
	Fishmonger		Travel
	Greengrocer		Repairs (for example, shoes)
	Newsagent		Charity shop
	Household items (general)		Finance/insurance
	Antique		£ store (bargain shop)
	DIY		Jewellery/gifts
	Chemist		Pub or restaurant
	Florist/garden		Food take-away/cafe
	Other		VACANT